



# Cysylltu pobl a lleoedd | 7

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf - defnyddio UPRN i wneud gweithrediadau casglu gwastraff yn fwy effeithlon

**Mae defnydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf o Rifau Cyfeirnod Eiddo Unigryw (UPRN) yn helpu i drawsnewid gweithrediadau Gwasanaethau Gwastraff.**

Er bod setiau data Rhwydwaith Trafnidiaeth Integredig OS MasterMap® a'r Rhestr Tir ac Eiddo Lleol yn cael eu defnyddio ers amser, mae llawer o weithrediadau'r Gwasanaethau Gwastraff yn gweithredu ar bapur. Mae timoedd yn gweithredu ar enwau lleol ar strydoedd ac ardaloedd, a gwybodaeth bersonol Rheolwyr Ardal o ffyrdd i drefnu casgliadau gwastraff ar gyfer preswylwyr.

Mae'r llwybrau casglu a gaiff eu gyrru â llaw yn ei gwneud hi'n anodd trefnu a diwygio. Roedd hyn hefyd yn ei gwneud hi'n anodd mesur faint o wastraff oedd angen ei gasglu ac ymhle, ac roedd hyn yn peri problemau wrth fesur effeithlonrwydd cyffredinol gweithrediad y Gwasanaeth Gwastraff. Nid oedd y data ystadegol oedd ei angen i ddylanwadu ar amseroedd, maint a chyfraddau casgliadau a ffyrdd mwy effeithlon, ar gael.

Penderfynodd Cyngor Rhondda Cynon Taf ddiwygio ei gweithrediadau Gwasanaethau Gwastraff, gan ddefnyddio UPRN er mwyn cynllunio gwelliannau ar lefel eiddo unigol, gan ddefnyddio meddalwedd wedi ei ddarparu gan Webaspx. Bydd y canlyniadau yn darparu lefel gwasanaeth gwell ar y cyfan ar gyfer preswylwyr, ac yn gam mawr ymlaen tuag at wella'r gwasanaeth yn gyffredinol.

**Trwy ddefnyddio UPRN i ddarlunio a chynllunio casgliadau gwastraff yn fwy effeithlon, mae Cyngor Rhondda Cynon Taf yn trawsnewid ei gweithrediadau Gwasanaethau Gwastraff.**



# Cysylltu UPRN

Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf yn gweithredu pecyn cyflawn ar gyfer rheoli gwastraff: Darperir Waste Manager Solution gan Webaspix.


Wrth integreiddio'r rhaglen, y cam cyntaf i draws-furfio'r gweithrediadau oedd gosod pedwar dyfais 'InCab' mewn cerbydau mewn astudiaeth beilot. Roedd tri cherbyd yn casglu gwastraff bwyd oddeutu 30,000 o dai yng Nghynon, gydag un uned yn mynd i dai mwy gwledig.

Mae'r dyfeisiadau InCab yn defnyddio UPRN i gysylltu tai gydag arsylwadau criwiau ar broblemau, llygriad neu sylwadau lle a phryd fo'r angen. Gyda'r data hwn, gall y Tîm Gwastraff gynllunio gwelliannau i'r gwasanaeth, er mwyn mesur effeithlonrwydd, a cheisio darparu gwasanaeth mwy cadarn i'r cyhoedd sy'n gwneud ymholiadau am y casgliad gwastraff.

Mae'r dyfeisiadau hefyd yn bwydo gwybodaeth ar y pryd ar gynnydd a statws casgliadau, cyfraddau casgliadau, yr amser a gymerir a gwybodaeth am dipio yn ôl i'r depo.



Dyfeisiadau InCab yn cysylltu ag UPRN



UPRN wrth wraidd effeithlonrwydd casgliadau sbwriel

# Cyflwyno canlyniadau

Trwy gysylltu adborth o dai unigol yn defnyddio UPRN, mae Gwasanaeth Gwastraff Rhondda Cynon Taf yn gweithredu'r Waste Manager Solution er mwyn darparu gwasanaeth gwell er mwyn cyflwyno nifer o fuddion:

- Mae UPRN yn cynyddu effeithlonrwydd: mae'n lleihau neu'n dileu croesgyfeirio llafurus gyda phrosesau papur; mae'n lleihau camgymeriadau ac yn lleihau dyblygu cofnodion; gan awtomeiddio tasgau'n hyderus.
- Mae UPRN yn gwella perfformiad timoedd: gall tîm y Gwasanaeth Gwastraff olrhain lleoliad, cynnydd a statws criwiau ar y pryd, gan eu cynorthwyo i ddelio â phroblemau a'u harwain gyda llywio â lloeren - sydd yn hynod o ddefnyddiol ar gyfer gyrwyr asiantaeth ac aelodau newydd.
- Gall UPRN leihau costau: mae'r InCab yn sicrhau llwybrau cost effeithlon, yn lleihau biliau tanwydd, ac yn helpu i lyfnhau adnoddau sy'n ymateb i geisiadau am finiau a fethwyd (gan negyddu'r angen am ymweliad arall).